❖ Ymateb rhai o'r Tystion i'r Newyddion am Eni Rhyfeddol Iesu

Gŵr y Llety

Fedrwch chi ddim fy meio i –
er bod llawer wedi gwneud.
Roedd hi'n gyfnod anodd
a daeth y cyfrifiad
i ddatrys ein problemau:
cyfle i adennill colledion
a chynilo rhywfaint
ar gyfer y dyfodol.
Wrth gwrs,
roeddwn i'n teimlo drostynt –
Galilead pryderus a'i briod ifanc
yn feichiog iawn.
Ond beth allwn i ei wneud?
Roedd y llety'n llawn;
doedd gwesteion a oedd wedi talu
ddim am ildio'u hystafelloedd iddyn nhw.
Fe wnes i'r hyn a allwn.
Roedd y stabl yno
i'w derbyn neu ei gwrthod.
Dyma nhw'n derbyn, yn ddiolchgar
hyd yn oed am ddarn o wellt.
Sut oeddwn i i wybod y byddai
hanes yn cael ei greu yn y tŷ allan
hwnnw?